**Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth 2025 - 2026**

Ffyrdd

Cafwyd man waith ei wneud yn ystod y flwyddyn ym Mrithdir a Llanfachreth gan Tim Tacluso oedd yn cynwys torri coeden oedd o dan bont droed ac adnewyddu canllaw y bont yn Rhydymain.

Cafwyd gwaith ei wneud yn y gymuned gan Briffyrdd Cyngor Gwynedd oedd yn cynnwys:
1. arwisgo ffyrdd yn ardal Brithdir a Llanfachreth ac roedd y gwaith yn cael ei ganmol gan dacluso'r ardal, lledu'r ffordd a dod a chwteri i'r golwg.
2. agor cwter oedd wrth giat terfyn Doluwchadda, Llanfachreth a thocio coedyn oedd gyferbyn a mynediad y maes parcio wrth hen ysgol Llanfachreth.
3. Cafodd waith ei wneud i atgyweirio bylchau yn waliau cynnal wrth ymyl hen ysgol Bryncoedifor gan Briffyrdd, Cyngor Gwynedd. Hefyd, archwilwyd crac ar ochr Ffordd Lefel yn ymyl Melin Ffridd Goch.
4. Clirio coeden oedd wedi dod i lawr ar yr A494 rhwng Dolgellau a Rhydymain.
5. Rhoi bin halen rhwng Esgair Gawr a Gernant, Drwsynant.
6. Cafodd stryd lamp ei osod wrth Neuadd Rhydymain wedi i'r Cyngor rhoi cais i Adran Golau Stryd, Cyngor Gwynedd i wneud y gwaith.

Rhoddwyd gwybod i'r Priffyrdd i ddim gadael trwch o eiria ar y gyffordd Drwsynant pan mae'r eira yn cael ei glirio gan aradr eira ar yr A494. Roedd y trwch o eiria yn gwneud hi'n anodd i gerbydau ymuno a'r A494 yn saff.

Cafwyd dau rybudd gan Wasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd am yr angen i gau ffyrdd. Un rhwng Coed y Moch a'r gyffordd i'r gogledd o Fryn Blew, Llanfachreth i ailwynebu ffordd ac un arall rhwng Pont ar Felau i'r gogledd ddwyrain o Braich y Fedw, Rhydymain i amnewid polyn. Roedd y ffyrdd ar gau am ddiwrnod.

Cafwyd wybod gan Glwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf am rali geir oedd am gael ei gynnal ar nos Sadwrn / bore Sul Medi 13/14. 2025.

Cafwyd gwybodaeth gan Mr Ken Skates, Trafnidiad a Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru ynglŷn â Pont-y-Ffatri Rhydymain ar yr A494. Roedd y gwaith o gryfhau waliau y bont am gael ei wneud cyn diwedd 2025/2026 os bydd cyllid ar gael. Bydd y goleuadau traffic yn parhau yn eu lle nes bydd y gwaith wedi'i gwblhau.

Llwybrau

Cafodd waith ei wneud yn y gymuned gan Gyngor Gwynedd oedd yn cynnwys:
1. Gosod giatiau a gyferbwyntio ar lwybrau yn ardal Llanfachreth.
2. Atgyweirio canllaw Pont Tyddyn Mawr, newid tua 20 o fyrddau dec a thorri 60m o lystyfiant oedd ar Lwybr 4 a Llwybr Ceffyl 13 yn Abergeirw.
3. Codi dau arwyddbost ar Lwybr 47 wrth Moel Cors y Garnedd,
4. Clirio coed yn Pwll y Gele ar Lwybr 62.
5. torri coed, 270m o dyfiant, codi 4 postyn cyfeirbwyntio a ffosio ar Lwybr Ceffyl 8 & 9 yn Abergeirw.
6. codi 2 giat a chodi 3 postyn cyfeirbwyntio ar Lwybr Ceffyl 12 & 13 yn Tyddyn Mawr.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Wasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn cynnwys dogfen Gorchymyn Cyngor Gwynedd i Lwybr Troed Cyhoeddus Rhif 38'. Cafodd y llwybr ei gwyro'r oddi wrth ddalgylch tŷ a rhedeg ar hyd ochr cae cyfagos ym 'Ystum-gwadnaeth', Llanfachreth. Doedd dim gwrthwynebiad i'r Gorchymyn.

Ceisiadau Cynllunio / adeiladau

Cynhaliwyd yn Neuadd Llanfachreth ymgynghoriad am dai yn y gymuned gan Hwylusydd Tai Gwledig. Yn yr ymgynghoriad roedd cyfle i bobl leol cael gwybodaeth am gynlluniau oedd gan

Gyngor Gwynedd a chan Tai Teg ar e.e.berchnogaeth, grant i wella tai gwag. Derbyniwyd adroddiad ar Arolwg Anghenion Tai Llanfachreth, Brithdir, a Rhydymain.

Cafwyd gwybod, trwy ein Cynghorydd Gwynedd, mai Pensaer George a Tomos Machynlleth oedd wedi ei benodi i weithio ar ddatblygiad tai Llanfachreth.

Cefnogwyd Cofrestru Tir Ef i gofrestru tir hen ysgol Llanfachreth yn enw Cyngor Gwynedd.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg, ar rân Cynghorau Cymuned a Thref Gwynedd, yn amgau llythyr anfonwyd i Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd. Roedd y llythyr yn pryderu am effaith cynlluniau datblygu a pholisiau gosod tai cymdeithasol Cyngor Gwynedd mewn partneriaeth efo'r cymdeithasau tai Adra a Thai Gogledd Cymru. Roedd dryswch ynglŷn sefyllfa gyfreithiol yr iaith i ddarpar denantiaid ac angen Cyngor Gwynedd i sefydlu Polisi Gosod Lleol. O'r ateb derbyniwyd gan y Prif Weithredwr mae Cyngor Gwynedd yn gwarchod a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg ac wedi cyhoeddi Polisi Addysg Gymraeg. Mae'r Cyngor am newid rheolau'r dreth ar dai gwyliau ac ail gartrefi. Cyngor Gwynedd yw'r cyngor cyntaf i gyflwyno Gorchymyn Erthygl 4 er bod heriau cyfreithiol gan wrthwynebwyr. O dan Bolisi Gosod Tai Gwynedd mae 97% o holl osodiadau'r sir yn mynd i unigolion â chysylltiad â Gwynedd ac mae 95% o breswyliwyr yn gallu'r Gymraeg. Bydd mwy o drafodaeth gyda'r Comisiynydd Iaith i wella'r polisi gosod a chael barn gyfreithiol. Mae gan bob sefydliad cyfrifoldeb i warchod a hybu'r Gymraeg

Derbyniwyd ceisiadau cynllunio gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am sylwadau. Y penderfyniad rhoddwyd ar y ceisiadau oedd:

Dim Sylwadau / Niwtral ar gais cynllunio oedd angen paneli solar ar dy yn Llanfachreth.

Cefnogwyd cais cynllunio i adeiladu ystafell wydr ym Montnewydd.

Cefnogwyd cais cynllunio i dŷ yn Rhydymain cael estyniad, a chefnogwyd cais i Neuadd Bentref, Brithdir cael gwellianau.

Anfonwyd llythyr i Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod roedd angen postyn newydd i ddal y gât sy'n rhoi mynedfa i gae chwarae hen ysgol Llanfachreth. Hefyd, roedd angen ffens tua 2 fedr o hyd rhwng y postyn newydd a'r ffens sy'n rhedeg ar ochr yr afon. Roedd hyn yn fater o Iechyd a Diogelwch.

Cafwyd wybod gan y Parc am ddiweddariad ar broses adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Roeddynt angen barn trigolion ar faterion polisi cynllunio allweddol yr ardal ac roedd linc i'r holiadur oedd angen ei lenwi.

Amgylchedd

Rhoddwyd cais am grant oedd yn cael ei roi gan gronfa 'Gwynedd Ni', Cyngor Gwynedd i gael mainc blastig ail gylchu ar lwybr cyhoeddus ym Mrithdir, mainc wrth Neuadd Llanfachreth a Neuadd Rhydymain a mainc ar dir Hen Gaer, Brithdir. Hefyd, rhoddwyd cais am ddau hysbysfwrdd plastig ail gylchu un ym Mrithdir a'i gosod ar wal y Neuadd a'r llall yn Rhydymain yn lle'r un presennol.

Cafwyd caniatad Adra i leoli mainc ar dir Hengaer a hysbysfwrdd yn Rhydymain.

Cafwyd y meinciau oddi wrth Wynnstay Agricultural Suoolies Ltd. a'r hysbysfwrdd oddi wrth Panel Warehouse, Manceinio.

Rhoddwyd gwybod i Zurich Municipal, ein cwmni yswiriant, i gynnwys y meinciau a'r hysbysfyrddau yn ein polisi fel roedd y Grant ei angen.

Anfonwyd lluniau yn dangos yr hysbysfyrddau a'r meinciau yn eu lle i Swyddog Prosiect Adfywio (Gwynedd Ni) a'r holiadur Ffurflen Cwblhau Prosiect.

Gwnaethpwyd ymoliadau gydag Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd i gael gwybod beth oedd diweddaraf i ddymuniad y Cyngor Cymuned i Gyngor Gwynedd drosglwyddo'r cae chwarae gyferbyn â'r hen ysgol Llanfachreth i'r Cyngor Cymuned.



Aelodau a Staff

Yn ein Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai dewiswyd Cadeirydd ac Is-gadeirydd a chynrychiolwyr ar neuaddau y gymuned ac ar Un Llais Cymru.

Cafwyd wybod gan Swyddog Gwasanaethau Etholiadol, Cyngor Gwynedd maent yn cynnal ymgynghoriad i newid ffiniau cymunedau'r sir.

Cafwyd cyfarfodydd chwarterol Un Llais Cymru sef Pwyllgor Ardal Meirionydd yn Nolgellau ac unwaith ym Mhenrhyndeudraeth.

Cafwyd yn fisol oddi wrth Un Llais Cymru rhestr o gyrsiau hyfforddiant oedd ar gael i'r aelodau.

Cafodd cynghorau cymuned a thref ardal Dolgellau cyfarfod gyda Tim Plismona Cymunedol, Heddlu Gogledd Cymru i drafod cynlluniau'r Heddlu am yr haf. Yn y cyfarfod cafwyd wybod y troseddau sy'n digwydd yn yr ardal a pwy i gysylltu gyda materion ymwneud â thorri'r gyfraith, a'r paratoadau sy'n cael ei wneud i blismona digwyddiadau fel sioeau.

Cynhaliwyd cyfarfodydd y Cyngor yn fisol ac oherwydd gwaith oedd yn cael ei wneud ar Neuadd Llanfachreth cynhalwyd un cyfarfod yn Neuadd Rhydygorlan a hynny am y tro cyntaf.

Anfonwyd llythyr i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn cefnogi Cylch yr Iaith i ddefnyddio'r hen enw 'Llyn Celanedd' yn lle'r enw presennol 'The Spinnies' sydd yn Aberogwen

Derbyniwyd neges gan Mr Dyfrig Siencin, cyn Clerc Cyngor Cymuned Llanfachreth rhwng 1975-1979, yn rhoi gwybod roedd ganddo ddogfennau hanesyddol y Cyngor sy'n mynd yn ôl i 1894. Rhoddwyd gwybod iddo roi y dogfennau i Archifydd Cyngor Gwynedd.

Cafwyd llythyr gan Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol oedd yn cael ei gynnal yn 21/1/2026 ar lein. Amgáu roedd Agenda, Cyfansoddiad a Chynigion ar gyfer y cyfarfod. Roedd angen un cynghorydd i gynrychioli'r cyngor yn y cyfarfod a chytunwyd bydd aelod o'r cyngor yn bresennol.

Codwyd cyflog y Clerc i £3,252.96 yn unol â phwynt SCP13 Un Llais Cymru. Ar ddiwedd y flwyddyn awgrymwyd i'r aelodau gwneud ymoliadau am gael Clerc newydd oherwydd roedd Henry yn dymuno ymddeol o'r swydd. Rhoddwyd hysbysiad am Glerc i Un Llais Cymru iddynt i'w ranu i'r cynghorau cymuned / trefi a rhoddwyd yr hysbysiad ar wefan Gyngor Gwynedd. Ni dderbyniwyd ymateb i'n hysbysiad a phenderfynwyd rhoi'r hysbysiad yn papur newydd lleol Llygad y Dydd.

Mae'r aelodau yn gwneud ymchwil lleol ynglŷn â Signal Ffôn 5G yn Llanfachreth ac maent wedi cysylltu â Bwrdd Uchelgais Cymru ynglŷn â'r mater.

Yn ein cyfarfod mis Chwefror cytunodd yr aelodau ar Raglen Asesiad Risg 2025-2026 ac ar Asedion 2025-2026. Cadarnhawyd hefyd bod ein polisiau yn gywir sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiad, Cynllun Hyfforddiant.

Ymddiswyddodd Mr Meurig Ashton am wneud gwaith o glirio llwybrau'r gymuned ac am ofalu am y llochesi fysau a hynny am flynyddoedd. Penderfynwyd rhoi hysbysiad am Weithiwr i glirio llwybrau'r gymuned yn Llygad y Dydd.

Yn y flwyddyn derbyniwyd dau aelod newydd ar y Cyngor sef Mr Aaron Roberts a Mr Wyn Rowlands.

<u>Ariannol</u>

Penderfynwyd adnewyddi ein cwmni yswiriant sef Zurich am dair blynedd.

Anfonwyd copi o Gyfrifon y Cyngor 2024-2025 i'r aelodau.

Anfonwyd y Ffurflen Datganiad o Daliadau i Aelodau 2024-2025 i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a rhoddwyd y ffurflen ar ein gwefan. Nid oedd yr aelodau wedi derbyn taliadau.

Talwyd £1,109.94 i'r Clerc tuag at bapur, inc a stampiau post am y cyfnod 2023–2024.

Rhoddwyd cais am grant 'Gwynedd Ni' oedd yn cael ei roi i gynghorau tref / cymuned gan

Brosiect Adfywio Trefi (Gwynedd Ni), Cyngor Gwynedd. Roedd y cais am ddau hysbysfwrdd plastig ail gylchu a pedair mainc blastig ail cylchu Derbyniwyd yr hysbysfyrddau o Panel Warehouse, Manceinio a'r hysbysfwrdd o Wynnstay (Agricultural Supplies) Ltd. Cyfanswm y gost i gwblhau'r gwaith oedd £4,111.04.

Talwyd bil am £1,039.00 i Guthrie Jones & Jones tuag at y gost i gofrestru rhan o dir lle parcio ac estyniad / llwybr i'r Neuadd Bentref Llanfachreth. Talwyd y bil gyda'r arian yn Account Rhif 61402277.

Talwyd y bil am £2,040.00 oddi wrth Gyngor Gwynedd am osod colofn golau stryd newydd ar gyfer Neuadd Bentref Rhydymain.

Talwyd y bil am £2,340.00 oddi wrth A.M. Ashton am dorri llwybrau'r gymuned (£2,250) ac am dorri a chlirio tyfiant o amgylch y pedwar lloches bws (£90.00). Anfonwyd y bil ymlaen i Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd am ad-daliad gan Gyngor Gwynedd a derbyniwyd yr ad-daliad o £490.30.

Derbyniwyd £1,311.64 oddi wrth HMRC at ad-daliad TAW am y cyfnod 1/4/2024 – 31/12/2025.

Talwyd bil am £362.67 oddi wrth Gyngor Gwynedd tuag at osod y bin halen rhwng Esgair Gawr a Gernant.

Rhoddwyd cais i'r Banc i gau cyfrif rhif 61402277 a throsglwyddo'r arian i gyfrif y Cyngor i dalu am ffens diogelwch bydd ar ben wal wrth y llwybr sy'n arwain at y Neuadd.

Derbyniwyd ceisiadau gan wahanol sefydliadau am gymorth ariannol a rhanwyd arian i rai ohonynt yn cyfarfod mis Chwefror.

Penderfynwyd codi'r praesept am 2026 / 2027 i £14,000.00 a rhoi gwybod i Gyllid, Cyngor Gwynedd.

Penderfynwyd nid oedd yr aelodau am dderbyn y tâl rhoddwyd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar gyfer 2026-27.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Guthrie Jones & Jones yn rhoi gwybod mae'r Cyngor Cymuned yn rhan o'r Legal Charge ynglŷn â Neuadd Llanfachreth a phenderfynodd y Cyngor i benodi twrnai i ddelio gyda'r mater, fel roedd llythyr Guthrie Jones & Jones yn ei awgrymu.

Talwyd bil am £224.00 oddi wrth Elfed ap Gomer am adnewyddu gwefan y Cyngor a'r costau am gynnal a chadw ein gwefan am flwyddyn arall.

Talwyd £188 i Un Llais Cymru i ail ymaelodi am y cyfnod 2026-27.

<u>Archwilio</u>

Archwiliwyd gwaith y Cyngor am y cyfnod 2024-2025 gan ein Harchwilydd Mewnol sef Cyngor Gwynedd. Roedd yr Archwilydd Mewnol yn fodlon gyda gwaith y Cyngor.

Derbyniwyd oddi wrth Archwilio Cymru copi o'r ffurflen flynyddol ardystiedig ar gyfer archwiliad 2023-2024. O'r ffurflen nodwyd nid oes unrhyw faterion yn achosi pryder i'r archwilydd, er roedd rhai materion angen sylw. Amgáu oedd hysbysiad yn rhoi gwybod bod yr archwiliad wedi'i gwblhau a bod y Ffurflen Flynyddol ar gael i'w archwilio gan etholwyr llywodraeth leol. Rhoddwyd yr hysbysiad ar ein gwefan a hysbysfyrddau.

Anfonwyd dogfennau'r archwilio y Cyngor am y cyfnod 2024-2025 i Archwilio Cymru a rhoddwyd yr Hysbysiad Archwilio ar ein gwefan ac ar ein hysbysfyrddau i roi cyfle i'r cyhoedd archwilio cyfrifon a dogfennau'r Cyngor ac iddynt roi unrhyw wrthwynebiad i'r gwaith i'r Archwilydd Cyffredinol.

Roedd Archwilio Cymru yn holi am fwy o wybodaeth sef:

1. Roeddynt angen gwybod os oedd gan y cyngor prosiectau cyfalaf am y flwyddyn 2024-25. Dywedwyd wrthynt nid oedd gan y cyngor prosiectau cyfalaf.
2. Roeddynt angen gwybod os rydym wedi mabwysiadu Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (General Power of Competence). Mae hwn yn rhywbeth newydd i ni. Mae Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

yn rhoi gwybodaeth bod y cyngor yn gymwys. Rhoddwyd gwybod iddynt nid oes gan y Cyngor wybodaeth ar Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol a bod y gofynion yn ddiangen ac yn engraifft o fiwrocratiaeth ddianghenraid. Derbyniwyd ateb yn dweud roeddynt wedi cael gwybod roedd y Cyngor wedi ateb 'ie' ar gyfer Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ac angen cadarnhad bod hyn yn gywir i gwblhau'r dystysgrif archwilio. Rhoddwyd gwybod iddynt nid yw'r Cyngor yn gwybod (doedd y Clerc ddim yn gwybod) be oedd Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ac roedd camgymeriad wedi ei wneud wrth ddweud bod y Cyngor gyda Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Archwilio Cymru yn cynnwys hysbysiad cwblhau archwiliad a chopi o'r Ffurflen Blynyddol 2024-25. Roedd y llythyr yn rhoi gwybod ni ddylwn (y Clerc) anfon llythyr camdriniol atynt yn y dyfodol. Roeddynt yn cyfeirio at fy e-bost dyddiedig 18/8/2025 oedd yn cynnwys:

1. Ni dderbyniais unrhyw gyfathrebiad oddi wrthych parthed Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ac nid oes gan y Cyngor unrhyw wybodaeth amdano.
2. Mae eich sylwadau a'ch gofynion yn hollol ddiangen ac yn gwneud i mi a'r cynghorwyr ail ystyried gwerth y swydd.

Yn y Ffurflen Blynyddol 2024-25 mae Adroddiad Archwilio Cymru yn rhoi gwybod:

1. nid oes unrhyw faterion yn codi sy'n achosi pryder i'r archwilydd.
2. mae angen i'r Cyngor cael gwybod ni roddwyd ateb cywir i eitem 10 yn y Datganiad, sef mae'r Cyngor wedi penderfynu mabwysiadu'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol. Maent yn argymell y Cyngor i ofalu bod y Datganiadau yn gywir. (Nid yw'r sylw yn affeithio ar farn yr archwilydd, sef 1.).

Rhoddwyd hysbysiad cwblhau archwiliad oedd yn rhoi gwybod bod yr archwiliad wedi'i gwblhau a bod y Ffurflen Flynyddol ar gael i'w archwilio gan etholwyr llywodraeth leol. Bydd yr hysbysiad ar ein gwefan a hysbysfyrddau ar 23/11/2025 a'i arddangos am gyfnod o leiaf 14 diwrnod.

Talwyd bil am £360.00 i Gyllid, Cyngor Gwynedd am wasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer cyfrifon 2024/2025, a thalwyd £795.00 i Archwilio Cymru tuag at ffiodd archwilio 2023/2024. Talwyd y ddau bil ac anfonodd ein Cadeirydd lythyr i Archwilio Cymru (gyda chopi i Un Llais Cymru) i ofyn sut maent yn dod i ffigwr o £795 tuag at daliad Ffioedd Archwilio 2023/24. Mae'r Cyngor Cymuned yn gwario 9.6% o'r praesept sy'n hynod o uchel i archwilio cyngor bach.

----------------